OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2008 Rhif 1259 (Cy.126)

# ADDYSG, CYMRU

## Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2008

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *5 Mai 2008* |
| *Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru - -* | *6 Mai 2008* |
| *Yn dod i rym - -* | *29 Mai 2008* |

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol ac a freiniwyd bellach(**1**) ynddynt hwy gan adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983(**2**), yn gwneud y Rheoliadau canlynol:

### Enwi, cychwyn a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) (Diwygio) 2008.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn dod i rym ar 29 Mai 2008 ac maent yn gymwys o ran Cymru.

### Dehongli

**2.** Yn y Rheoliadau hyn, ystyr "Rheoliadau 2007" ("*the 2007 Regulations*") yw Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007(**3**).

### Diwygio Rheoliadau 2007

**3.** Mae Rheoliadau 2007 wedi'u diwygio fel a ganlyn.

**4.** Yn rheoliad 2 —

(**1**) Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 1 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan O.S. 2006/1458 o 8 Mehefin 2006 ymlaen. Trosglwyddwyd swyddogaethau'r Ysgrifennydd Gwladol o dan adran 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983, i'r graddau y maent yn arferadwy o ran Cymru, i Gynulliad Cenedlaethol Cymru gan Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Trosglwyddwyd swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru mewn perthynas ag adrannau 1 a 2 o Ddeddf Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) 1983 i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraffau 30(1) a 30(2)(d) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) 1983 p.40. Diwygiwyd adran 1 gan Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p.40), Atodlen 12, paragraff 91; Deddf Addysg Bellach ac Uwch 1992 (p.13), Atodlen 8, paragraff 19; Deddf Addysg 1994 (p.30), Atodlen 2, paragraff 7; Deddf Addysg 1996 (p.56), Atodlen 37, paragraff 57; Deddf Addysgu ac Addysg Uwch 1998 (p.30), Atodlen 3, paragraff 5; Deddf Dysgu a Medrau 2000 (p.21), Atodlen 9, paragraffau 1 ac 11; Deddf Addysg 2002 (p.32), Atodlen 21, paragraff 5 a Deddf Addysg 2005 (p.18), Atodlen 14, paragraff 9. Diwygiwyd Adran 2 gan Ddeddf Addysgu ac Addysg Uwch 1988, adran 44 ac Atodlen 4.

(**3**) O.S. 2007/2310 (Cy.181).

(a) ym mharagraff (4) yn lle "Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci", rhodder "Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a'r tiriogaethau tramor";

(b) ym mharagraff (4)(ch) o'r testun Cymraeg, yn lle'r geiriau "blentyn ei briod neu ei bartner sifil,", rhodder y geiriau "briod neu bartner sifil ei blentyn,";

(c) ym mharagraff (6)(ch) o'r testun Cymraeg, yn lle'r geiriau "blentyn ei briod neu ei bartner sifil,", rhodder y geiriau "briod neu bartner sifil ei blentyn,";

(ch) ar ôl paragraff 7, mewnosoder—

"(8) At ddibenion y Rheoliadau hyn, mae person sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig oherwydd ei fod wedi symud o'r Ynysoedd at ddibenion ymgymryd â chwrs i'w ystyried yn berson sy'n preswylio fel arfer yn yr Ynysoedd.".

**5.** Yn yr Atodlen —

(a) ym mharagraff 3(ch), yn lle "Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir", rhodder "Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(b) yn lle paragraff 6, rhodder—

"**6.**—(1) Person—

(a) sydd—

(i) yn weithiwr mudol AEE neu'n berson hunangyflogedig AEE;

(ii) yn berson Swisaidd cyflogedig neu'n berson Swisaidd hunangyflogedig;

(iii) yn aelod o deulu person a grybwyllir ym mharagraff (i) neu (ii);

(iv) yn weithiwr ffin yr AEE neu'n berson hunangyflogedig ffin yr AEE;

(v) yn berson Swisaidd cyflogedig y ffin neu'n berson Swisaidd hunangyflogedig y ffin; neu

(vi) yn aelod o deulu person a grybwyllir ym mharagraff (iv) neu (v);

(b) yn ddarostyngedig i is-baragraff (2), sy'n preswylio fel arfer yn y Deyrnas Unedig ar ddiwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac

(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs.

(2) Nid yw paragraff (b) o is-baragraff (1) yn gymwys pan fo'r person yn dod o fewn paragraff (a)(iv), (v) neu (vi) o'r is-baragraff hwnnw.";

(c) ym mharagraff 7(b), yn lle "sydd wedi bod fel arfer yn preswylio yn y diriogaeth sy'n ffurfio'r Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir" rhodder "sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(ch) ym mharagraff 8(1)(ch), yn lle "Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir", rhodder "Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor";

(d) ym mharagraff 9(1)—

(i) ym mharagraff (a)(i), yn lle "blwyddyn academaidd gyntaf", rhodder "un o flynyddoedd academaidd";

(ii) yn lle paragraff (c), rhodder—

"(c) sydd wedi bod yn preswylio fel arfer yn y diriogaeth a ffurfir gan yr Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor drwy gydol y cyfnod o dair blynedd cyn diwrnod cyntaf blwyddyn academaidd gyntaf y cwrs; ac";

(iii) hepgorer paragraff (ch);

(iv) ym mharagraff (d), yn lle “mharagraffau (c) neu (d)”, rhodder “mharagraff (c) ”;

(dd) ym mharagraff 10(1)(ch), yn lle “Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir”, rhodder “Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor”;

(e) ym mharagraff 11(c), yn lle “Ardal Economaidd Ewropeaidd a'r Swistir”, rhodder “Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a'r tiriogaethau tramor”;

(f) ym mharagraff 12(c), yn lle “Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir a Thwrci”, rhodder “Ardal Economaidd Ewropeaidd, y Swistir, Twrci a'r tiriogaethau tramor”.

*Jane E Hutt*
Y Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau, un o Weinidogion Cymru.

5 Mai 2008

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Addysg (Ffioedd a Dyfarniadau) (Cymru) 2007 ("Rheoliadau 2007").

Mae rheoliadau 4 a 5 yn gwneud diwygiadau i reoliad 2 a'r Atodlen i Reoliadau 2007 i alluogi preswyliad yn y tiriogaethau tramor i gael ei drin fel preswyliad cymwys mewn achosion penodol ac i'w gwneud yn glir y bydd myfyrwyr sy'n symud o'r Ynysoedd i'r Deyrnas Unedig at ddibenion ymgymryd â'u cwrs yn cael eu trin fel rhai sy'n preswylio fel arfer yn yr Ynysoedd.

Ymdrinnir â gwallau teipograffyddol yn rheoliad 2(4)(ch) a 2(6)(ch) o destun Cymraeg Rheoliadau 2007 yn rheoliad 4.